Bwletin y Farchnad HCC

Ionawr 2025

> Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar dueddiadau lladd a chynhyrchu ar gyfer 2024 yn ei gyfanrwydd yn dilyn y ffigurau trwybwn a ryddhawyd yn ddiweddar gan Defra.
>
> **Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**

GWARTHEG

Yn ôl ffigyrau newydd eu rhyddhau gan Defra, cafodd **2.85 miliwn** o wartheg eu prosesu mewn lladd-dai yn y DU yn 2024 - cynnydd o 3% (neu 83,800 pen) o'i gymharu â 2023, a 2% yn uwch na chyfartaledd 2019–23 o 2.85 miliwn pen. Dyma'r trwybwn blynyddol uchaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n debyg i'r lefelau a welwyd ddiwethaf yn 2011 (o 2.84 miliwn pen). O ganlyniad, cyrhaeddodd cynhyrchiant cig eidion a llysiau **933,800 tunnell**, i fyny 4% flwyddyn ar ôl blwyddyn a 2% yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd.

Mae'r cynnydd yn cyd-fynd â data poblogaeth BCMS sy'n rhagweld digon o gyflenwad, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad Cyflenwad Gwartheg a ryddhawyd gennym ym mis Ebrill yma. Cofnododd y rhan fwyaf o gategorïau o wartheg gynnydd o flwyddyn ar flwyddyn mewn lefelau lladd, gyda heffrod yn cofnodi'r cynnydd mwyaf lle cafodd 52,900 yn fwy eu prosesu nag yn 2023, gan awgrymu cyfraddau cadw isel o fewn buches y DU. Gallai'r duedd hon hefyd adlewyrchu'r cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio semen â rhywedd penodol yn y diwydiant llaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n debygol o gyfrannu at gynnydd cyffredinol yn nifer yr heffrod yn y DU. Cododd trwybwn gwartheg dethol o 4% i 2.1 miliwn pen, wedi'i sbarduno gan gynnydd o 3% mewn bustych ac er bod niferoedd y tarw ifanc yn sefydlog. Ochr yn ochr â hyn, cynyddodd trwybwn gwartheg llawn-dwf bron i 2% ar y flwyddyn i gyfanswm o 644,900 o wartheg.

Gan edrych ymlaen at 2025; gall y cyflenwad posibl o wartheg ym Mhrydain dynhau rhywfaint, er y gallai'r prisiau pwysau marw cryf presennol annog mwy i'r farchnad. Y tu hwnt i 2025, mae'r dirywiad yn y categori gwartheg iau (fel y trafodwyd yn ein hadroddiad blaenorol) yn awgrymu y gallai fod llai o anifeiliaid sy'n barod am y lladd-dai yn dod ar gael yn 2026 a thu hwnt.

DEFAID

Yn ôl data gan Defra, prosesodd lladd-dai'r DU **12.85 miliwn** o ddefaid ac ŵyn yn 2024, gostyngiad o 8% (1.1 miliwn pen) flwyddyn ar ôl blwyddyn a 9% yn is na chyfartaledd 2019–2023 o 14.1 miliwn pen. Mae hyn yn nodi'r lefelau lladd defaid isaf ers blynyddoedd. Roedd lefel lladd defaid llawn-dwf hefyd ar ei isaf ers 2020 sef 1.4 miliwn o ddefaid, sydd 13% yn is na'r flwyddyn. O ganlyniad, disgynnodd cynhyrchiant cig defaid o 7% i **266,000 tunnell** - sydd hefyd 9% yn is na'r cyfartaledd pum mlynedd.

Roedd trwybwn ŵyn dethol yn ystod pob mis yn 2024 (*ac eithrio Ion a Chwef*) yn is na'r lefelau blwyddyn yn gynharach. O ganlyniad, roedd cyfanswm trwybwn yr ŵyn mewn lladd-dai yn y DU yn ystod 2024 wedi gostwng 7% (neu 876,600 pen) i 11.1miliwn pen. Mae hyn yn sylweddol is na chofnodion hanesyddol, ac mae'n debyg i drwybwn ŵyn a gofnodwyd yn 2001. Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu bod colledion cig oen yn uwch yn 2024 gan adlewyrchu colledion o dywydd garw a mwy o glefydau yn ystod wyna, fel firws Schmallenberg. Bydd y cnwd cig oen is yn debygol o effeithio ar faint y praidd bridio yn y dyfodol. Wrth edrych ar y flwyddyn cnwd cig oen (Mai '24 ac Ebrill '25), y trwybwn ŵyn rhwng mis Mai a mis Rhagfyr oedd 7.7 miliwn y pen – 7.5% yn is na lefelau 2023. O ystyried maint cnwd cig oen presennol y DU, mae lefelau trwybwn yn is na'r disgwyl, ac felly'n edrych ar weddill y cnwd cig oen presennol, mae'n debygol y bydd y farchnad yn gweld cynnydd bach yn y cyflenwad yn ystod misoedd cyntaf 2025 wrth i'r cnwd cig oen sy'n weddill ddod i'r farchnad.



MOCH

Yn 2024, prosesodd lladd-dai y DU **10.5 miliwn** o foch, cynnydd o 3% flwyddyn ar flwyddyn ond roedd 5% yn is na chyfartaledd 2019-23. Roedd moch heb fagu yn cyfrif am 10.3 miliwn, tra bod 209,000 o hychod a baedd yn cael eu prosesu. Cyfanswm cynhyrchiant cig moch oedd **960,800 tunnell**, i fyny 4% ers 2023 ond 3% yn is na'r cyfartaledd pum mlynedd o 988,900 tunnell.

Data trwybwn 2024 ar gyfer Cymru:
>Gwartheg a lloi = 189,600 pen (*+10% ar y flwyddyn*)
>Defaid ac ŵyn = 1.9m pen (*-20% ar y flwyddyn*)
>Moch = 21,600 pen (*+1% ar y flwyddyn*)

Source: Defra

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Er bod cynhyrchiant cig eidion wedi gweld twf cryf yn 2024, gall cyflenwad yn y dyfodol dynhau a allai arwain at brisiau cryfach. Ar y llaw arall, gwelwyd dirywiad sylweddol yn nifer y cig defaid oherwydd effeithiau'r tywydd ac afiechydon, a allai gyfyngu ar y cyflenwad yn 2025 a thu hwnt.

Rhaid nodi bod y ffigurau trwybwn misol a ddarperir gan Defra yn rhai dros dro, a gellir eu diwygio'n ddiweddarach.

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 25 Ionawr

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **585.9c/kg**. Roedd hyn:

- + 15.1c ar yr wythnos flaenorol,
- 93.8c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 581.5c/kg (+14.2c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 567.9c/kg (+19.0c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 421.6c/kg (+17.9c ar yr wythnos).

Trwybwn - Rhagfyr 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 212,300 pen – cynnydd o 3% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 156,200 pen - i fyny 4% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych +2%, heffrod +6%, a theirw ifanc -4%*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 339.9kg (-0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 51,100 pen - cynnydd o 1% ar y flwyddyn.





DEFAID

Prisiau – yr wythnos yn dod i ben ar 25 Ionawr

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **731.2c/kg**. Roedd hyn:

- - 4.8c ar yr wythnos flaenorol,
- + 99.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach, a
- 178.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 553.0p/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 34,000 pen. Roedd hyn:

- - 4% ar yr wythnos flaenorol.

Trwybwn - Rhagfyr 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.2 miliwn pen – i lawr 5% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 1.1 miliwn pen – i lawr 5% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 19.6kg (+0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 118,300 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.



MOCH

Prisiau – yr wythnos yn dod i ben ar 11 Ionawr

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **208.4c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.7c ar yr wythnos flaenorol,
- - 4.7c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 32.9c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 175.5p/kg).

Trwybwn - Rhagfyr 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 864,400 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 851,600 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 88.5kg (-0.4kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 12,800 pen – i lawr 25% ar y flwyddyn.